COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN, A GYNHALIWYD NOS FERCHER, 23AIN MAI 2018 AM 6.30 P.M. YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN

YN BRESENNOL: Y Maer, Y Cynghorydd S. Williams
Y Cynghorydd C. Hughes, Cadeirydd (gweler Cofnod 12/18 isod)
Cynghorwyr N. Bastow (Dirprwy Faer), A. Khan, T. Pearson, M. Pickard, K. Swindon.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Mr Dilwyn Price, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Ardal Bae Colwyn at Eisteddfod Genedlaethol 2019

12/18 Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer 2018/19:

Gofynnwyd am enwebiadau am swydd Cadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn 2018/19.

Cynigiwyd ac eiliwyd i ethol y Cynghorydd Chris Hughes i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor. Nid oedd unrhyw enwebiad arall.

Penderfynwyd yn unfrydol i ethol y Cynghorydd Chris Hughes i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2018/19.

Cymerodd y Cynghorydd Hughes y Gadair a gwahoddwyd enwebiadau am swydd Is-Gadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn 2018/19.

Cynigiwyd ac eiliwyd i ethol y Cynghorydd Kate Swindon i fod yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor am 2018/19. Nid oedd unrhyw enwebiad arall.

Penderfynwyd yn unfrydol i ethol y Cynghorydd Kate Swindon i fod yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor am 2018/19.

13/18 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr H. Fleet, M. Jones, A. Kealey a Mrs H. Meredith

14/18 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

15/18 Ymwelydd: Croesawyd Dilwyn Price, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Leol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2019, i'r cyfarfod gan y Cadeirydd er mwyn trafod y cais ysgrifenedig a gyflwynwyd mis Hydref diwethaf, am gyllid i gefnogi'r apêl leol. Atgoffwyd yr Aelodau mai targed ardal Conwy oedd £320,000, sef 8% o gyfanswm y gost o lwyfannu'r Eisteddfod. Bydd gweddill y cyllid yn dod allan o'r cyfraniadau blynyddol a dderbynnir gan y 22 Awdurdod Lleol, heb ystyried lle cynhelir y digwyddiad. Cynhelir yr Eisteddfod yn Llanrwst yn Awst 2019, y tro cyntaf iddi gael

ei chynnal yn Sir Conwy. Cynhaliwyd yr Eisteddfod leol ddiwethaf yn Abergele ym 1995 (sef Sir Clwyd cyn ad-drefnu Llywodraeth Leol).

Targed Pwyllgor Bae Colwyn, sy'n ymestyn ar draws ardal y Cyngor Tref a Llysfaen a Mochdre yw £25,000. Bu'r Pwyllgor yn brysur dros y misoedd diwethaf a hyd yn hyn casglwyd / derbyniwyd addewidion o £18,000, yn cynnwys £1,000 yr un gan Gynghorau Cymuned Llysfaen a Mochdre. Bydd yr apêl yn parhau hyd yn oed ar ôl cyrraedd y targed, ond bydd mwy o bwyslais ar godi ymwybyddiaeth am y digwyddiad, gweithio gyda busnesau lleol megis y sw, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf, ac annog trigolion lleol i fynd i'r Eisteddfod. Yr amcangyfrif yw bydd y digwyddiad yn creu budd economaidd o oddeutu £6-£8m i'r economi leol. Cydnabu Dilwyn y gefnogaeth flaenorol gan y Cyngor Tref tuag at weithgareddau dwyieithog, ac mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am hyn.

Cafwyd sesiwn byr o holi ag ateb, gyda chwestiynau yn ymwneud a faint o gyllid sydd ar gael gan y Cyngor Tref allan o'r hyn na gafodd ei ddyrannu.

Penderfynwyd argymell gwneud cyfraniad tuag at yr apêl leol ac i ofyn i'r Clerc paratoi adroddiad byr yn crynhoi maint y cyllid na ddyrannwyd sydd ar gael ar hyn o bryd (ar gyfer 2018/19).

16/18 <u>Cofnodion:</u>

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 14^{eg} Chwefror 2018.

17/18 <u>Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol:</u>

a. Cofnod 382/17(a) – Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR):

Cyflwynodd y Clerc cyngor i'w ystyried oddi wrth Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) ynghyd a pholisïau drafft, gweithdrefnau ag archwiliad data cyflawn, yn amlygu'r gweithrediadau oedd dal angen eu cyflawni. Fe nodwyd bod penodi Swyddog Diogelu Data yn ddewisol a bod cynghorau plwyf, tref a chymuned wedi cael ei heithrio o'r rhan yma o'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, fe gynghorir cynghorau i benderfynu a fyddai'n dal i fod yn angenrheidiol / o fudd i benodi un, yn seiliedig ar faint a'r fath o ddata oedd am gael ei brosesu a'r lefel o risg oedd yn gysylltiedig.

Penderfynwyd mabwysiadu'r polisïau priodol (2A i 2) a'r rhybuddion preifatrwydd (1A i 1E) a gyflwynwyd gan y Clerc a nodi bydd y staff yn parhau i weithio tuag at gael cydymffurfiad llawn yn yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod.

18/18 <u>Cyllid:</u>

a. ***Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor am y cyfnod 17/3/18 i 30/4/18 a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.***

b. ***Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo llofnodi datganiadau cysoni'r banc fel ag yr oedd ar 31/3/2018.***

c. Derbyniwyd y crynodeb a chyfrif diwygiedig Incwm a Gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.3.2018 ac fe nodwyd bod archwiliad mewnol 2017/18 wedi cael ei gwblhau ar 11eg Mai. (Disgwylier am adroddiad yr archwilydd).

c**h.** ***Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r cyllidebau canlynol na cawsant eu gwario cael eu trosglwyddo o 2017/18 i 2018/19:***

(i) Lwfansau Ward Aelodau - £5,773

(ii) Dodrefn y Stryd (meinciau) - £1,461)

d. Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth am Gronfa Adnau Sector Cyhoeddus CCLA, yn cadarnhau na fedrir ail-fuddsoddi'r incwm o'r gronfa yn awtomatig ac mai'r isafswm y gellir ei fuddsoddi yw £10,000. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc o benderfyniad blaenorol y Cyngor i ail-fuddsoddi'r incwm a dderbyniwyd yn hytrach na'i wario pob blwyddyn ar brosiectau cyfalaf bach. Gofynnwyd felly i'r Aelodau ystyried gwneud buddsoddiad ychwanegol i Gronfa Adnau Sector Cyhoeddus (CASC) i adlewyrchu'r incwm a dderbyniwyd yn 2017/18 yn unol â'r polisi hwn. Fe nodwyd bod yr incwm llynedd yn £7,303, felly byddai angen cael £2,697 o'r arian wrth gefn i ddod a'r swm i isafswm y buddsoddiad o £10,000.

Penderfynwyd argymell:
(i) Ail-fuddsoddi £10,000 i CASC yn 2018/19 o'r incwm a dderbyniwyd llynedd ynghyd ag arian wrth gefn cyffredinol;
(ii) Bod hyn i gael ei adolygu pob blwyddyn, yn Ionawr, a'i gynnwys yn yr Amcangyfrifon Blynyddol.

19/18 <u>Llywodraeth Cymru / Y Cynulliad Cenedlaethol:</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol i gael ei ystyried:

a. Atgyfnerthu Llywodraeth Leol: Cyflenwi i'r Bobl - ymgynghoriad ar y papur gwyrdd

Fe nodwyd bod y ddogfen hon yn amlinellu nifer o opsiynau, pob un ohonynt yn golygu uno Awdurdodau Lleol gan greu llai o awdurdodau mwy erbyn 2022 neu 2026. Dywedodd y Cynghorydd Hughes wrth yr Aelodau bod CBS Conwy wedi sefydlu gweithgor i adolygu'r cynigion ac wedi penderfynu, ynghyd a 21 Awdurdod Lleol arall, nad oeddynt yn gallu cefnogi'r cyfuniadau arfaethedig. Pleidleisiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn unfrydol i wrthod y cynigion ac mae nifer o fudiadau proffesiynol, yn cynnwys CIPFA, Deloittes a Price-Waterhouse Cooper wedi craffu ar gostau arfaethedig y cyfuniadau ac maent o'r farn bod y ffigyrau yn y papur gwyrdd yn afrealistig.

Datganwyd pryderon hefyd byddai'r cynigion yn pellhau democratiaeth o'r bobl a bydd yr arbedion sy'n cael eu cynnig yn debygol o gael eu defnyddio gan y Cynulliad i gynyddu ei aelodaeth a'i phwerau ei hun. Ni dderbyniodd yr Awdurdodau Lleol unrhyw ateb i'r cwestiynau ynglŷn ag o ble roedd yr arian i gyllido'r cyfuniadau i ddod nag i'w pryderon bod yr arbedion ar gostau yn seiliedig ar ddamcaniaeth byddai pob un o'r Awdurdodau newydd mor effeithiol

ar yr Awdurdod Lleol mwyaf effeithiol presennol, a'u bod felly yn afrealistig. Gwrthwynebwyd hefyd y teitl 'atgyfnerthu llywodraeth leol' oherwydd roedd yr Aelodau o'r farn byddai'r cynigion yn gwanhau Awdurdodau Lleol.

Nid oes unrhyw gyfeiriad i newidiadau yn sector y cynghorau tref a chymuned yn y papur gwyrdd, oherwydd adolygiad presennol Llywodraeth Cymru i 'wraidd a changen' y sector.

Penderfynwyd argymell bod y Cyngor Tref yn cefnogi safbwynt CBS Conwy yn gwrthwynebu'r cyfuniadau arfaethedig, fel maent yn ymddangos yn y papur gwyrdd, am y rhesymau a ddatganwyd.

b. Adolygiad o Sector y Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru:

Cyflwynodd y Clerc copi o Daflen Newyddion Ebrill er gwybodaeth.

20/18 <u>Biliau Gwasanaethau Cyhoeddus:</u>

Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth oddi wrth 'Corona Energy' parthed cynnydd ym mhris cyflenwadau trydan a nwy ers Ebrill 2018, oherwydd cynnydd yng nghostau trawsyrru (a ganiatawyd o dan delerau'r cytundeb pris sefydlog).

Penderfynwyd derbyn a nodi'r codiad yn y pris.

21/18 <u>Un Llais Cymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc yr agenda ar gyfer y Gynhadledd Ymarferiadau Arloesol sydd i'w gynnal ar 4ydd Gorffennaf.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r agenda.

22/18 <u>BID Colwyn:</u>

Cyflwynodd y Clerc rhybudd am y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd i'w gynnal ar 20fed Mehefin.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon y wybodaeth ymlaen at y tri chynrychiolydd ac i geisio cael un ohonynt i fod yn bresennol, i adrodd yn ôl yn y man.

23/18 <u>Aelodaeth o CVSC:</u>

Cymeradwywyd adnewyddu'r aelodaeth am 2018/19 yn unol â'r gyllideb flynyddol a ddarparwyd ar gyfer hyn.

24/18 <u>Prisiau am Ddefnyddio Neuadd y Dref:</u>

Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau gwneud yn eglur, er mwyn y staff, beth oedd y polisi ar brisiau i Bleidiau Gwleidyddol cael defnyddio'r ystafelloedd cyfarfod..

Penderfynwyd cadarnhau bod cyfarfodydd Pleidiau Gwleidyddol sy'n cynnwys Aelodau nad ydynt ar y Cyngor Tref yn cael eu trin fel unrhyw fudiad elusennol arall a chodi'r pris llawn.

25/18 <u>Dyfarniad Cyflog 2018/19 NJC:</u>

Nodwyd manylion dyfarniad cyflog yr NJC i'r holl staff, ac ôl ddyddiwyd i Ebrill 2018

26/18 <u>Lwfans Ward:</u>

Cyflwynodd y Clerc cynnig am brosiect gan y Cynghorydd G. Baker am £100 i Rotari Rhos tuag at gynnal a chadw gardd coffa'r Dywysoges Diana.

Penderfynwyd cymeradwyo bod y lwfans yn cael ei dalu.

27/18 <u>Grantiau:</u>

a. Fe nodwyd y llythyrau o ddiolch / adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y mudiadau canlynol a dderbyniodd grant:

i Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn

ii CBS Conwy - Cyllido Prom Xtra.

Penderfynwyd ateb a gofyn iddynt ystyried cynnal y digwyddiad ar ddyddiad cyson yn y dyfodol, byddai penwythnos Ŵyl y Banc diwedd Mai yn ddelfrydol, i alluogi ymwelwyr i gynllunio ymlaen llaw.

b. Cyflwynodd y Clerc cais gan Sgowtiaid Chwilota'r Gogarth i newid amcan y grant ieuenctid a dderbyniwyd ganddynt yn 2017/18 er mwyn iddynt allu rhentu ag addasu / gwella garej ar gyfer storio yn hytrach na phrynu cynhwysydd.

Penderfynwyd argymell bod y cais hwn yn cael ei gymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 8 p.m.

.....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE POLICY AND FINANCE COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY AT 6:30 P.M. ON WEDNESDAY 23RD MAY 2018

PRESENT: The Mayor, Cllr S Williams
Cllr C Hughes, Chairman (see Min. 12/18 below)
Cllrs: A Khan, N Bastow (Deputy Mayor),T Pearson, M Pickard, P Richards, K Swindon

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

IN ATTENDANCE: Mr Dilwyn Price, Chairman of the Colwyn Bay Area Fundraising Committee for the 2019 National Eisteddfod

12/18 Election of Chairman and Vice-Chairman of the Committee for 2018/19:

Nominations were invited for the Office of Chairman of the Committee for 2018/19.

It was proposed and seconded that Cllr Chris Hughes be elected Chairman of the Committee. There were no other nominations.

Resolved unanimously to elect Cllr Chris Hughes as Chairman of the Committee for 2018/19.

Cllr Hughes took the Chair and invited nominations for the office of Vice-Chairman.

It was proposed and seconded that Cllr Kate Swindon be elected Vice-Chairman of the Committee for 2018/19. There were no other nominations.

Resolved unanimously to elect Cllr Kate Swindon as Vice-Chairman of the Committee for 2018/19.

13/18 Apologies for Absence:

Apologies for absence were received from Cllrs: H Fleet, A Kealey, M Jones and H Meredith.

14/18 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

15/18 Visitor:

The Chairman welcomed Dilwyn Price, Chairman of the local appeals committee for the National Eisteddfod 2019, to discuss the written request submitted last October for funding support for the local appeal. He reminded Members that the Conwy area had £320,000 to raise, which is 8% of the total cost of putting on the Eisteddfod. The remaining funding comes from the annual contributions paid by all 22 Local Authorities, irrespective of where the event is held. The event will be held in Llanrwst in August 2019 and this will be the first time it has been in the County of Conwy, with

the last local Eisteddfod being in Abergele in 1995 (pre local government reorganisation when the County was Clwyd).

The Colwyn Bay fundraising committee has been given a fundraising target of £25,000 and it covers the area of the town council, plus Llysfaen and Mochdre. The Committee has been busy in recent months and, through its efforts to date, it has raised/had pledges totalling £18,000, including over £1,000 from Llysfaen and Mochdre Community Councils. Once the target is reached, fundraising will continue, but more effort can then be put into raising awareness about the event, working with local businesses like the zoo to ensure that maximum benefit is obtained, and encouraging local residents to attend. It is estimated that the event will bring an economic benefit of around £6-£8m into the local economy. Dilwyn acknowledged the previous support given by the town council in support of bi-lingual activities, for which the committee are grateful.

A brief question and answer session followed, with questions about how much unallocated funding the town council has available.

Resolved to recommend that a donation be given to the local appeal and to request that the Clerk produces a brief report summarising the amount unallocated funding currently available (for 2018/19).

16/18 <u>Minutes:</u>

Resolved to approve and sign as a correct record the Minutes of the last meeting held on 14th February 2018.

17/18 <u>Matters Arising from the Minutes:</u>

a. Min. 382/17(a) – General Data Protection Regulations (GDPR):

The Clerk submitted, for consideration, advice from the Society of Local Council Clerks (SLCC) together with draft policies, procedures and a completed data audit, highlighting the actions that are still outstanding. It was noted that the appointment of a Data Protection Officer is now discretionary, with parish, town and community councils having been removed from this section of the legislation. However, councils are being advised to conduct a risk assessment to determine if it would still be necessary/beneficial to appoint one, based on the amount and type of information being processed and the level of risk involved.

Resolved to adopt the relevant policies (2A to 2) and privacy notices (1A to 1E), as submitted by the Clerk, and to note that the staff will use these to continue to work towards full compliance in the coming weeks and months.

18/18 <u>Finance</u>:

a. ***Resolved to authorise payments made on behalf of the Council for the period 17/3/2018 to 30/4/2018, as detailed in Schedule 'A' attached.***

b. ***Resolved to receive and approve the signing of the bank reconciliations as at 31/3/2018.***

c. The summary and adjusted year end Income/Expenditure account as at 31/3/2018 was received and it was noted that the internal audit for 2017/18 was completed on 11th May (report of the auditor awaited).

d. ***Resolved to authorise the carry forward of the following unspent budgets from 2017/18 to 2018/19:***
(i) Councillors Local Members Ward Allowances - £5,773
(ii) Street Furniture (benches) - £1,461

e. The Clerk submitted information about the CCLA Local Authorities Property Fund, confirming that the income from the fund cannot be automatically re-invested and the minimum investment is £10,000. The Clerk reminded members of the previous decision of the Council to reinvest the income received, rather than spend it each year on smaller capital projects. Members were therefore asked to consider making an additional investment into the Local Authority Property Fund to reflect the income received in 2017/18, in accordance with that policy. It was noted that the income received last year was £7,303, so £2,697 would need to be found from reserves to bring this up to the minimum investment of £10,000.

Resolved to recommend that:
(i) £10,000 be invested into the LAPF in 2018/19, from the income received last year, plus general reserves.
(ii) This is reviewed annually, in January, and included in the Annual Estimates.

19/18 <u>Welsh Government / National Assembly:</u>

The Clerk submitted, for consideration, the following correspondence:

a. Strengthening Local Government: Delivering for People – green paper consultation.

It was noted that this document outlined several options, all resulting in the merger of Local Authorities to provide fewer, larger authorities by 2022 or 2026. Cllr Hughes advised members that Conwy CBC had set up a working group to review the proposals and, together with the other 21 Local Authorities, had decided that it was not able to support the proposed mergers. The Welsh Local Government Association had also voted unanimously to reject the proposals and several professional bodies, including CiPFA, Deloittes and Price-Waterhouse Cooper had scrutinised the estimated costs of the mergers and thought the figures in the green paper to be unrealistic.

There were also concerns that the proposals would take democracy further away from the people and provide savings so that the Assembly can increase its own members and power. Local Authorities have received no answer to questions about where the funding for the mergers would come from and their concerns that cost saving projections are based on all of the new Authorities being as efficient as the most efficient of the current Local Authorities, and are therefore unrealistic.

Members also objected to the title 'strengthening local government', as it was felt that Local Authorities would be weakened by these proposals.

There is no reference to any changes to the town and community council sector in the green paper, due to the Welsh Government's current 'root and branch' review of the sector.

Resolved to recommend that the Town Council supports the stance of Conwy CBC in objecting to the proposed mergers, as outlined in the green paper, for the reasons stated.

b. Review of the Community and Town Council Sector in Wales:

The Clerk submitted a copy of the April Newsletter, for information.

20/18 <u>Utility Bills:</u>

The Clerk submitted correspondence from Corona Energy in respect of an increase in the price of electricity and gas supplies from April 2018, due to an increase in transmission costs (permitted under the terms of a fixed price agreement).

Resolved to receive and note the price increase.

21/18 <u>One Voice Wales:</u>

The Clerk submitted the agenda for the Innovative Practice Conference, to be held on 4th July.

Resolved to receive and note the agenda.

22/18 <u>Colwyn BID:</u>

The Clerk submitted notice of the AGM, to be held on 20th June.

Resolved to request that the Clerk forwards the information to the three representatives and seeks one attendee, to report back in due course.

23/18 <u>CVSC Membership:</u>

Renewal of membership for 2018/19 was approved, in accordance with the annual budget set aside for this purpose.

24/18 <u>Town Hall Hire Charges:</u>

The Clerk asked that members provide clarification for staff on the charging policy for booking of meeting rooms by Political Parties.

Resolved to confirm that meetings of Political Parties that include any non-members of the Town Council should be treated the same as other non-charitable organisations

and charged the full hiring rate.

25/18 <u>2018/19 NJC Pay Award:</u>

Members noted details of the NJC pay awards for all staff, to be backdated to April 2018.

26/18 <u>Ward Allowances:</u>

The Clerk submitted a project proposal from Cllr G Baker for £100 for Rhos Rotary towards the maintenance of the Princess Diana memorial garden.

Resolved to approve payment of the allowance.

27/18 <u>Grants:</u>

a. It was noted that letters of thanks/ reports have been received from the following grant recipients:
   i. Old Colwyn Residents' Association
   ii. CCBC re: Prom Xtra

   Resolved to send a reply to request that consideration be given to having a consistent date for the event in future, ideally the late May Bank Holiday weekend, to enable visitors to plan ahead.

b. The Clerk tabled a request from Orme Explorer Scouts to amend the purpose of the £900 youth grant received in 2017/18 to enable them to rent and adapt/improve a garage for storage, rather than purchase a container.

   Resolved to recommend that this request be approved.

The meeting closed at 8pm

……. Chairman